

Dyddiad cyhoeddi: 13 Gorffennaf 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

"Allech chi ddarparu copi i mi (electronig yn ddelfrydol) o'r asesiad risg iechyd a diogelwch ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig ynghylch cau gorsaf Llanbedr yn Nhalwr Bach, Llanbedr, Gwynedd dros dro."

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Cefndir

Yn ystod pandemig COVID-19, mae nifer o orsafoedd ar draws y rhwydwaith wedi cael eu tynnu oddi ar yr amserlen. Fel y gwyydych, Gorsaf Llanbedr yw un o'r gorsafoedd a dynnwyd oddi ar yr amserlen.

Dyma'r rhesymau dros dynnu'r gorsafoedd dan sylw, gan gynnwys Llanbedr, oddi ar yr amserlen;





- Mae'r platfformau'n fyrrach na'r trenau ac felly mae'n rhaid i'r goruchwylwr gerdded ar hyd y trê'n i gyrraedd y drysau yn y canol er mwyn i gwsmeriaid allu mynd i mewn ac allan o'r trê'n. Byddai cerdded ar hyd y trê'n yn torri'r gyfraith cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr ac, o'r herwydd, nid yw goruchwylwyr yn cerdded ar hyd y trê'n ar hyn o bryd.
- Gofynion Rhan 4 o Gyfyngiadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, sy'n mynnu bod yn rhaid cadw pellter cymdeithasol yn salwnau trenau yng Nghymru.

2. Rheoli'r sefyllfa

Drwy gydol y cyfnod hwn, mae TrC wedi darparu'r opsiwn 'galw am dacsî' i deithwyr ar gyfer y rheini sy'n dymuno teithio o'r gorsafoedd hyn, gan gynnwys Llanbedr, i'r orsaf drenau agosaf. Cymharol fach oedd effaith hyn ar TrC a theithwyr, gan fod nifer mor fach o deithwyr yn defnyddio'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd sydd wedi cau dros dro mewn cyfnod arferol (mae tua 12,000 o deithwyr y flwyddyn yn defnyddio gorsaf Llanbedr) a hyd yn oed llai yn ystod y pandemig. Ystyriwyd cyfarpar diogelu personol llawn ond gallai arwain at oedi gyda'r trê'n os na allai'r gard fynd trwodd yn rhydd ac os nad yw'n cael ei ystyried yn ymarferol mewn amgylchiadau o'r fath. Mae gan gwmnïau trenau eraill (TOCs) wasanaeth drws dethol (SDO), ond nid yw hyn yn bresennol ar ein fflyd i gyd.

3. Llanbedr

Ni all Llanbedr ddarparu lle i drê'n 2 gerbyd yn llawn. Mae'r atodiad adrannol isod yn dangos mai dim ond 32m yw ei hyd ac mai hyd uned Class 158, 2 gerbyd yw 46m. O gofio ein hasesiad risg presennol sy'n gwahardd goruchwylwyr rhag cerdded ar hyd y cerbydau i agor y drysau canol, nid yw'n bosibl galw yn yr orsaf hon.

LOR	Seq.	Line of Route Description	ELR	Route	Last Updated			
GW734	006	Dovey Jn to Pwllheli	DJP	Wales	26/08/2020			
Location	Mileage M Ch	Running lines & speed restrictions		Signalling & Remarks				
				<table border="1"> <tr> <td>ERTMS L2 RA5</td> <td>Machynlleth SC (MH) West Work Station</td> <td>GSM-R </td> </tr> </table>		ERTMS L2 RA5	Machynlleth SC (MH) West Work Station	GSM-R 
ERTMS L2 RA5	Machynlleth SC (MH) West Work Station	GSM-R 						
	103 73 *							
TALYBONT	104 37							
	104 48 *			Platform - 32m (35 yards)				
Llechryd LC (UWC)	104 52	T		① AOCL Level crossing with barriers				
Bennar Fawr LC (AOCL + B)	105 04			③ 40K Up direction only to Pentre Back 2 LC				
	105 36 *			Platform - 113m (124 yards)				
DYFFRYN ARDUDWY	105 50							
Llwyn Cadwgan LC (UWC)	105 54 *	T						
(Manned)								
Fieldre (UWC)	106 63	T						
Plas y Bryn (UWC)	107 52	T						
Talwrn Bach LC (AOCL)	107 67							
LLANBEDR	107 70			Platform - 32m (35 yards)				
Penarth No. 1 (UWC)	107 78	T						
	108 20 *							
Bridge 66	108 28			② 15km/h over bridge for other than Class 15x trains				
	108 to 34							
Pensarn LC (UWC)	108 41	T						
PENSARN	108 46			Platform - 148m (162 yards)				
Pensarn North LC (UWC)	108 51	T						
	108 60 *							
Ymlwch LC (UWC)	108 72	T						

Ar ben hynny, mae asesiad risg y llwybr isod yn nodi ein risgiau ar gyfer y llwybr rhwng Cyffordd Dyfi a Phwllheli. Fel y gwelwch yn y golofn disgrifio peryglon, mae'n dweud nad yw platfform Llanbedr yn ddigon hir i ddarparu ar gyfer trên llawn.

[Dros y ddalen]



Train Working (Note: a further Task Based Assessment will be required if there is a location such as a TMO type crossing)								
Route From		Dovey Junction			Route to		Pwllheli	Via
Reference Number	Location/route feature	Critical Task/s	Hazard		Controls	Initial Risk		
			Hazard description	Hazardous event/consequence (Types)	List all controls currently in place	Severity	Likelihood	Risk Ranking
	List the location and route feature that is a risk when working a train	List the most critical tasks that are relevant to the Location/route feature.	Describe all hazards applicable to the location and route feature. The NTS negative markers could be used when completing this section. Note: Additional hazards may be caused by interaction with other work.	List the event /consequence of the hazards, which is likely to occur if control measures are not followed.	Describe fully all controls applicable for each hazard e.g. if PPE is used as a control measure, it must be specifically described. All controls must be valid in that they reduce severity, likelihood or both.	From matrix, for each hazard, identify severity with control measures in place	From matrix, for each hazard, identify likelihood with control measures in place.	Classify risk rating from matrix for each hazard.
29	Llanbedr Single Platform.	Safely release door	Llanbedr Station is not long enough to accommodate either	A full door release on a two or four car 158 formation could result in passengers falling from the	Conductor Training. Conductor Route	4	1	4
30	Llanbedr Single Platform.	Don't block road crossing	Llanbedr Station is not long enough to accommodate either	People using the crossing could potentially make	Conductor Training. Conductor Route	3	3	6

Yn olaf, fel mae'r llun isod yn dangos, mae pa mor agos yw'r groesfan reilffordd at y platfform yn golygu na fyddai'n bosibl newid ei weithrediad gan na fyddai safonau'r grŵp rheilffyrdd yn caniatáu i ni gyflwyno dull gweithio diwygiedig posibl.



Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".